

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 6 Chwefror 2023 0300 200 6565
Amser: 14.00 Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 28)

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed
(Tudalennau 29 – 36)

2.2 P-06-1315 Rhoi'r gorau i'r defnydd o contractau allanol yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, Plas Menai
(Tudalennau 37 – 39)

2.3 P-06-1316 Ailenwi 'Wales', gan ddefnyddio ei henw gwreiddiol, sef Cymru.
(Tudalennau 40 – 46)

2.4 P-06-1320 Dyrannu cyllid ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau ei fod yn gynaliadwy
(Tudalennau 47 – 48)

2.5 P-06-1323 Gofynnwn i Lywodraeth Cymru brynu Neuadd Dewi Sant fel adnodd cenedlaethol i Gymru
(Tudalennau 49 – 54)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1314 Insiwleiddio holl gartrefi Cymru rhag y gwres a'r oerfel... cyflwyno grantiau sy'n agored i bawb!
(Tudalennau 55 – 62)

3.2 P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru
(Tudalennau 63 – 68)



- 3.3 P-06-1240 Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru
(Tudalennau 69 – 72)
- 3.4 P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru
(Tudalennau 73 – 82)
- 3.5 P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru
(Tudalennau 83 – 84)
- 3.6 P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd.
(Tudalennau 85 – 132)
- 3.7 P-06-1288 Byddai agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy, sy'n rhan o Raglen Gyflenwi yr Arglwydd Burns, yn llwyddiant cyflym
(Tudalennau 133 – 138)
- 3.8 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl
(Tudalennau 139 – 143)
- 3.9 P-06-1303 Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio
(Tudalennau 144 – 149)
- 3.10 P-06-1304 Adolygu'r polisi tai dros dro mewn argyfwng sy'n effeithio ar ein cymunedau.
(Tudalennau 150 – 151)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.**
- 5 Data Deisebau**
(Tudalennau 152 – 161)

6 Adroddiad drafft – P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed

Y Pwyllgor Deisebau | 6 Chwefror 2023
Petitions Committee | 6 February 2023

Cyfeirnod: SR22/4474-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1306

Teitl y ddeiseb: Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed

Testun y ddeiseb: Mae cyfreithiau cwmpo coed o'r 1960au wedi dyddio erbyn hyn. Mae'r polisi cynllunio presennol yn caniatáu ar gyfer torri coed hynafol a hynod (veteran) i lawr.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio polisi cynllunio mewn perthynas â Gorchmynion Diogelu Coed. Mae angen mwy o ddiogelwch ar eu cyfer, mae'r cyfreithiau'n llawer rhy llac.

Mae polisiâu cynllunio ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach ac ar raddfa fawr yn caniatáu i ddatblygwyr eiddo/perchnogion tir wneud cais am Drwydded Cwmpo Coed drwy Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed hynafol a hynod.

Gwybodaeth ychwanegol: Fideos ar sut i symud coeden heb ei thorri i lawr: -

"How to Transplant and Move Large Trees Featuring an Air Tool":

<https://youtu.be/rMlbv6cdAsk>

"Tree Moving Machine":

<https://youtu.be/9TtzQtVga7Y>

"What does it cost to move a Large Tree":

<https://www.greerbros.com/greerblog/cost-to-move-a-large-tree>



Pam caniatáu i goeden hynafol neu hynod gael ei thorri? Mae'n syml, yn lle ei thorri, symudwch y goeden. Felly, dylai polisi cynllunio gael ei ddiwygio fel a ganlyn: “Dim torri coed hynafol / hynod, rhaid i bob datblygwr ddadwreiddio a symud y coed i leoliad agos iawn”. Byddai hyn, yn ei dro, nid yn unig yn achub y coed ond hefyd yn creu swyddi ledled Cymru.

Achubwch goed hynafol a hynod. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed i lawr!

1. Cefndir

Mae Coed Cadw yn disgrifio coed hynafol a choed hynod fel a ganlyn:

A veteran is a mature tree that has developed valuable decaying wood features, not necessarily as a consequence of time, but due to its life or environment. Veteran trees may not be very old, but share similarities with ancient trees, such as trunk or branch hollowing, or significant amounts of other decaying wood.

An ancient tree is one that has passed beyond maturity into an ancient life stage, or is old in comparison with other trees of the same species. The typical lifespans of trees differ according to species; for example, birches tend to live shorter lives than oaks. As a result, the age at which different species reach ancientness can also vary by a few hundred years.

Yn ei Strategaeth Coetiroedd i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

Mae coed hynafol yn adnodd diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lle, amgylchedd a diwylliant (y gorffennol a'r presennol), ac sydd hefyd yn darparu cynefin di-dor i rai mathau o gen, mwsoglau a ffyngau sy'n prinhau mewn tirweddau gwledig a threfol fel ei gilydd. Yn rhy aml o lawer mae coed hynafol, a ddisgrifir weithiau fel henebion gwyrdd, yn cael eu hystyried yn broblem yn hytrach nag ased, ac ni ofelir amdanynt yn iawn. Gall mwy o wybodaeth am eu lleoliad a'u statws ein helpu i sicrhau y caiff y coed hyn eu diogelu a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r strategaeth yn ymrwmo i wella'r drefn o ran amddiffyn a rheoli coed hynafol a choed hynod.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a gwrychoedd. Yn ôl paragraff 6.4.26:

Mae coetiroedd hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, aeddfed a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol na ellir mo'u hadfer, ac maent yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Dylai coed a choetiroedd o'r fath gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywio oni bai bod buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chdir o wneud hynny; dylai'r mesurau gwarchod hyn atal gweithrediadau a allai achosi difrod a cholled diangen...

Yn ôl paragraff 6.4.25:

...Ni ddylid caniatáu cael gwared ar goetir yn barhaol oni byddai hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chdir. Lle ceir gwared ar goetir neu goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwr blannu coed yn eu lle.

Gorchymyn gan Awdurdod Cynllunio Lleol o dan *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* yw Gorchymyn Cadw Coed, sydd yn gyffredinol yn ei gwneud yn drosedd torri, brigdocio, blingo neu ddadwreiddio coeden, neu ei difrodi neu ei dinistrio yn fwriadol heb ganiatâd.

Fel y nodwyd yn y llythyr a anfonwyd atoch gan Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, caiff y drefn o ran torri coed ei rheoleiddio drwy *Ddeddf Coedwigaeth 1967*. Pan fydd perchennog am gwympo coed sy'n tyfu, mae'n ofynnol iddo gael trwydded cwympo coed. Ceir rhai eithriadau pan nad oes angen trwydded, gan gynnwys pan fo'r goeden yn beryglus a phan fo angen torri coed fel rhan o ddatblygiad sydd wedi ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio. Mae angen trwydded cwympo coed hefyd os bydd rhywun am gwympo coed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (oni bai bod eithriad, er enghraifft os rhoddwyd caniatâd cynllunio eisoes).

Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am brosesu a rheoleiddio trwyddedau cwympo coed.

2. Y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae llythyr y Gweinidog yn nodi'r polisi cynllunio sy'n berthnasol i goed hynafol a choed hynod, fel y disgrifir uchod, ac mae'n rhoi rhagor o fanylion.

Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn cydnabod “bod angen dipyn o sylw ar y ddeddfwriaeth” o ran Gorchmynion Cadw Coed, er ei bod yn effeithiol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith adolygu cyfraith cynllunio Cymru, gyda'r nod o'i symleiddio a'i chydgrynhai. Cyhoeddwyd [argymhellion Comisiwn y Gyfraith](#) yn 2018. Roedd rhai o'r argymhellion yn ymwneud â'r drefn o ran Gorchmynion Cadw Coed. Gwnaeth Llywodraeth Cymru [dderbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a dywedodd yn 2020](#) y byddai newidiadau'n cael eu gwneud drwy fil cydgrynhai ym maes cynllunio. Mae disgwyl i'r Bil gael ei gyflwyno yn nhymor y Senedd hon. Mae llythyr y Gweinidog yn dweud y bydd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn cael sylw drwy'r rheoliadau cysylltiedig.

Mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt wedi'u cynnwys ar dudalennau 51 i 55 o'r tabl hwn: [Ymateb manwl Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru](#).

Ar ddiwedd ei llythyr, mae'r Gweinidog yn nodi: “Nid yw diwygio'r fframwaith fel y nodir yn y Ddeiseb o reidrwydd yn mynd i gyflawni'r gwelliannau a geisir”. Mae'n dweud y bydd rhaglen Llywodraeth Cymru o barhau i adolygu Polisi Cynllunio Cymru a diwygiadau i'r drefn Gorchmynion Cadw Coed yn y dyfodol a ddaw drwy'r Bil cydgrynhai cynllunio a rheoliadau cysylltiedig “yn cryfhau'r system ac yn rhoi'r amddiffyniad i goed a geisir gan y Deisebydd”.

3. Y camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Y cam mwyaf diweddaraf gan y Senedd yn y maes hwn oedd gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystyried [Cyfnod 1 y Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\)](#). Er bod y Bil yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion amaethyddol, mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwneud trwyddedau cwmpo coed yn fwy hyblyg.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn gofyn pam nad oedd materion eraill sy'n ymwneud â choetiroedd wedi eu cynnwys yn y Bil, er enghraifft gwella'r amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol a choed hynod.

Teitl: P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ar 27 Ionawr 2023. Mae'n argymhell y dylai Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r materion o ran rheoli coetiroedd a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, gan gynnwys gwella'r amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol a choed hynod.

Mae disgwyl i'r Gweinidog ymateb o fewn chwe wythnos i gyhoeddi'r adroddiad ac mae disgwyl i'r Senedd drafod egwyddorion cyffredinol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar 7 Chwefror 2023.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf: P-06-1306
Ein cyf: JJ/02435/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Rhagfyr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Hydref yn fy ngwahodd i fynegi barn mewn ymateb i ddeiseb P-06-1306 *'Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed'*.

Mae Llywodraeth Cymru am weld tirweddau coediog cyfredol a hanesyddol yn cael eu gwarchod a choed unigol, coed hynafol a hynod yn ein hardaloedd trefol a chefn gwlad yn cael eu deall yn well, eu diogelu, a'u rheoli am eu harwyddocâd diwylliannol, eu hansawdd esthetig a'u treftadaeth. Mae coed hynafol a hynod yn adnodd diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lle, amgylchedd, a diwylliant, maent hefyd yn sicrhau parhad cynefinoedd yn y dirwedd wledig a threfol.

O ran diogelu coed hynafol a hynod, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (PPW): [Polisi cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU](#) a Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040 (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf>). Yn y dogfennau hyn rydym yn datgan yn glir y dylai awdurdodau cynllunio ddiogelu coetiroedd hynafol, coetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, hynod a choed treftadaeth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu cais cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod fframwaith cryf ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a gwrychoedd.

Mae paragraff 6.4.26 o Bolisi Cynllunio Cymru yn dweud, *"Mae coetir hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, hynod a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol anadferadwy, ac mae ganddynt dirwedd, bioamrywiaeth a gwerth diwylliannol pwysig. Dylid gwarchod coed a choetiroedd o'r fath rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywiad oni bai bod manteision sylweddol a diffiniedig clir i'r cyhoedd; dylai'r gwarchod hwn atal gweithgareddau allai eu niweidio ac arwain at eu colli yn ddiangen."*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 34
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae paragraff 6.4.25 yn nodi, *"dylid caniatáu dileu coetir yn barhaol ond lle y byddai'n sicrhau buddion sylweddol diffiniedig clir i'r cyhoedd. Pan fydd coetir neu goed yn cael eu symud fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu gwaith plannu digolledu."*

Mae Dyfodol Cymru - Cynllun Cenedlaethol 2040, yn cyflwyno ar Bolisi 9 ddull diogelu cynefinoedd (ymysg amcanion eraill) er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu peryglu'n ormodol gan ddatblygiad. Gall dull diogelu'r polisi fel y nodir yn Dyfodol Cymru helpu i ddiogelu ac adfer coetiroedd hynafol, a gall alluogi'r system gynllunio i weithredu sy'n gallu ategu dulliau ehangach o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae polisi'r cynllun datblygu haen uchaf hwn yn nodi llywio polisi cadarn i helpu i sicrhau nad yw rhannau o dir a allai fod yn bwysig ar gyfer ehangu neu gysylltu rhwydweithiau ecolegol, addasu i newid yn yr hinsawdd neu bwysau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau ecolegol allweddol yn cael eu peryglu gan ddatblygiad. Mae dyheadau polisi Llywodraeth Cymru yn uchel ac yn uchelgeisiol; mae statws cyfreithiol Cymru yn y Dyfodol yn golygu bod yn rhaid i bolisiau lleol a gwneud penderfyniadau gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol.

Caiff rheoli torri coed yng Nghymru ei reoleiddio drwy Ddeddf Coedwigaeth 1967, fel y'i diwygiwyd. Mae angen trwydded torri coed lle mae perchennog yn dymuno cwmpo coed sy'n tyfu, ond mae rhai eithriadau i'r angen am drwydded gwmpo. Er enghraifft, nid oes angen trwydded cwmpo coed yn syth er mwyn gwneud datblygiad sydd wedi'i awdurdodi gan ganiatâd cynllunio. Mae angen trwydded cwmpo coed hefyd os yw rhywun yn dymuno cwmpo coed sy'n cael ei gynnwys mewn Gorchymyn Diogelu Coed (TPO), oni bai bod eithriad yn berthnasol, fel bod caniatâd cynllunio wedi ei roi.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am brosesu a rheoleiddio pob trwydded torri coed yng Nghymru, boed hynny am weithrediadau teneuo neu gwmpo. Mae CNC yn asesu pob cais yn erbyn y canllawiau a amlinellir yn Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sef safon cyfeirio'r Llywodraeth ar gyfer rheoli coedwigoedd cynaliadwy yn y DU; rhaid i bob cais am drwydded cwmpo coed fodloni'r canllawiau hyn.

Gan droi at gais y Deisebydd i ddiwygio a chryfhau deddfwriaeth y TPO, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ddefnyddio Gorchymynion Diogelu Coed i wahardd cwmpo coed. Prif effaith TPO yw gwahardd cwmpo, diwreiddio, tocio, lopia, difrod bwriadol neu ddinistrio coeden neu goed yn fwriadol heb ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Dyletswydd y datblygwr yw sicrhau eu bod yn trefnu unrhyw gydsyniadau sy'n angenrheidiol i alluogi datblygu. Mewn achos o waith ar goeden sy'n destun TPO, mae methu sicrhau caniatâd yn drosedd. Gall hyn arwain at roi dirwy ddiderfyn i'r datblygwr.

Ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen dipyn o sylw ar y deddfwriaeth TPO er ei fod yn effeithiol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Cyfraith Cymru a Lloegr gynnal adolygiad manwl o'r gyfraith gynllunio yng Nghymru, gyda'r nod o argymhell ffyrdd y gallai'r deddfwriaeth gael ei symleiddio a'i chyfuno, deddfwriaeth TPO sy'n cael ei chynnwys yn yr adolygiad hwn. Fe wnaeth Comisiwn y Gyfraith adrodd i Lywodraeth Cymru yn 2018 ac fe wnaethom gyhoeddi ymateb llawn ym mis Tachwedd 2020. O ran TPOs rydym wedi derbyn y mwyafrif llethol o argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiwygio ac egluro'r drefn TPO. Mae nifer fach o'r argymhellion hynny sy'n cael eu derbyn yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol, a ddaw i rym drwy'r Bil Cydgrynhoi Cynllunio, sydd i gael ei gyflwyno yn ystod tymor y Senedd hwn, tra bydd mwyafrif yr argymhellion yn cael sylw drwy'r rheoliadau cysylltiedig.

Felly, mae'r polisi strategol a'r fframwaith deddfwriaethol gyda'i gilydd yn cynnig system gadarn o ddiogelwch sy'n cydnabod rhinweddau arbennig ac unigryw ein coetir hynafol. Nid yw diwygio'r fframwaith fel y nodir yn y Ddeiseb o reidrwydd yn mynd i gyflawni'r gwelliannau a geisir, bydd ein rhaglen o barhau i adolygu Polisi Cynllunio Cymru a diwygiadau i'r TPO yn y dyfodol sy'n dod trwy'r Bil Cydgrynhoi Cynllunio a rheoliadau cysylltiedig yn cryfhau'r system ac yn rhoi'r amddiffyniad i goed a geisir gan y Deisebydd.

Yn gywir,



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1315
Ein cyf/Our ref DB/00672/22
Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Tachwedd, ynglŷn â Deiseb P-06-1315: Rhoi'r gorau i'r defnydd o gontractau allanol yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, Plas Menai.

Ar 20 Medi, cyhoeddais [ddatganiad ysgrifenedig](#) mewn ymateb i benderfyniad Chwaraeon Cymru i benodi Parkwood Leisure fel y partner strategol a ffefrir ganddo er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor ar gyfer Plas Menai.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar ei ddull a ffefrir, mae Chwaraeon Cymru wedi ymgysylltu â staff ac undebau ynglŷn â'i gynigion. Cefais innau drafodaethau personol â swyddogion undebau drwy gydol y broses hefyd. Bydd telerau'r cytundeb â Parkwood Leisure yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth holl aelodau'r ganolfan ac yn sicrhau y bydd Plas Menai yn cadw ei statws fel y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol, gan weithredu ar sail nid-er-elw.

Bydd diogelu a gwella'r Gymraeg a'n diwylliant yn greiddiol i'r berthynas rhwng Chwaraeon Cymru a Parkwood Leisure. Mae'n ofyniad cyfreithiol i Chwaraeon Cymru, fel corff cyhoeddus, gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a bydd hyn yn parhau yn y bartneriaeth newydd. Ni fydd cyfrifoldebau Chwaraeon Cymru yn lleihau yn hyn o beth.

Yn gywir,

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 37

P-06-1315 Stop outsourcing at the Plas Menai National Outdoor Centre for Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 31.01.23

The outsourcing of Plas Menai to Legacy Leisure will take place with effect from tomorrow, 1 February and this is now, therefore, to some extent an academic matter. However, I think that the issue raises wider questions.

In respect of the Deputy Minister's response to the union's petition, I note her statement that "The terms of the agreement with Parkwood Leisure will ensure that all staff at the centre will have their terms and conditions of employment protected and that Plas Menai will retain its status as the National Outdoor Centre, operated on a not-for-profit basis." Assurances to this effect have been made on numerous occasions directly to PCS and to Plas Menai staff, by the Deputy Minister and by Sport Wales management. The union welcomes the attempt to provide an additional level of protection to the staff affected, over and above the legal protections afforded by TUPE, and we do not question the good intentions of the Deputy Minister or of Sport Wales. We have engaged in a constructive dialogue with management, both before and after the decision by the Sport Wales Board to award the contract to Legacy Leisure, and have tried to place staff in the strongest position possible. I should say, however, that the protections offered by TUPE are of limited value once a transfer has taken place, since changes in the circumstances of an organisation can be used to justify changes in staffing arrangements and in terms and conditions. Moreover, while Sport Wales' agreement with Legacy Leisure provides some additional protections in this respect - in effect, giving Sport Wales the power of veto over any major structural changes - that veto cannot be used in a way that could be deemed 'unreasonable.' Legacy Leisure has advised us of certain areas - not covered either by TUPE or by the agreement with Sport Wales - in which the policies governing staff are being brought into line with those that apply to their existing employees. While we have discussed these changes in detail, in order to ensure that they do not result in any substantive detriment to staff, only time will tell whether we have been successful.

The best protection for staff in such situations, therefore, is to allow them to retain their status as public employees; this remains the union's preference as a matter of policy and would have been the clear preference of Plas Menai staff in this instance. Moreover, it is still our view that the outsourcing of public sector jobs to an external provider conflicts with the frequently reiterated policy of the Welsh Government, that public services should be provided by staff directly employed within the public sector. It is normally the case, in our experience, that outsourcing is driven by an imperative to realise financial savings, normally by cutting staff, pay, terms and conditions and/or services to the end-user. We have been repeatedly reassured that this will not be the case in this instance and that the decision to outsource has been driven not by financial considerations at all but by the desire to enhance and diversify the range of services offered by Plas Menai. We asked on several occasions during our discussions with Sport Wales why that could not be achieved without changing the employment status of the staff but never received an answer that we considered convincing.

As already noted, the change highlighted by our petition is now going ahead and we in PCS hope that it will take place smoothly and without any adverse impact on staff. We would also

hope, however, that any comparable changes that may be proposed in the Welsh devolved public sector in future will be subject to Senedd scrutiny from an early stage.

Finally, I would add that we welcome the Deputy Minister's reassurances in respect of the continued provision of services through the medium of Welsh, as this is an important element of Plas Menai's offer to its service users.

Kind regards

Darren Williams

Dylid ail-enwi 'Wales', gan ddefnyddio ei henw gwreiddiol, sef Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 06 Chwefror 2023
Petitions Committee | 06 February 2023

Cyfeirnod: SR23/4917/2

Rhif y ddeiseb: P-06-1316

Teitl y ddeiseb: Dylid ail-enwi 'Wales', gan ddefnyddio ei henw gwreiddiol, sef Cymru.

Geiriad y ddeiseb: Enw a gafodd ei arosod ar Gymru yw 'Wales'. Cymru oedd yr enw gwreiddiol.



1. Cefndir

Wales yw'r enw sy'n dal i'w gydnabod yn rhyngwladol ar y genedl, yn hytrach na Chymru, er gwaethaf y statws cyfartal a roddir i'r ddwy iaith gan Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd [Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Ieithoedd Swyddogol\) 2012](#) statws i'r Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd. Trwy [Ddeddf Senedd ac Etholiadau \(Cymru\) 2020](#), ailenydd y Cynulliad Cenedlaethol yn Senedd Cymru. Tra bod gan 'Senedd Cymru' a 'Welsh Parliament' statws cyfartal mewn deddfwriaeth, y term 'Senedd', bellach, yw'r enw cyffredin a ddefnyddir mewn cyd-destunau Gymraeg a Saesneg.

Bu sawl achos yn ddiweddar o leoedd a sefydliadau yng Nghymru yn dewis defnyddio eu teitl Cymraeg yn unig, gan gyfeirio at hyn yn aml fel rhan allweddol o'u hunaniaeth. Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i newid teitl swyddogol y genedl, gan ddangos yn ei hymateb i'r ddeiseb hon ei bwriad i barhau i ddefnyddio Cymru a Wales.

1.1. Enghreifftiau o enwau Cymraeg yn unig yn cael eu defnyddio

Mae rhai sefydliadau a chynghorau wedi mabwysiadu polisiâu diwygiedig o ran y Gymraeg ar gyfer eu henwau a'u brandio. Mabwysiadodd Cyngor Gwynedd, a adnabyddid gynt wrth ei enw Saesneg Gwynedd Council, [bolisi iaith Gymraeg diwygiedig](#) yn 2022. Dywed y polisi newydd fod "hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg".

Yn 2022, [Pleidleisiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#) i ddefnyddio yr Wyddfa ac Eryri, yn hytrach na'r termau Saesneg Snowdon and Snowdonia.

1.2. Tîm pêl-droed cenedlaethol

Cymru, yn hytrach na Wales, a ddefnyddir gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) yn ei chyfathrebiadau mewnol ac allanol a chan staff i gyfeirio at dimau pêl-droed cenedlaethol y dynion a'r menywod.

Adroddwyd bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn bwriadu newid yr enw yn swyddogol yn y dyfodol agos. [Mae Noel Mooney, prif weithredwr Cymdeithas](#)

Bêl-droed Cymru, wedi dweud mai newid enw yw'r cyfeiriad strategol, ond does dim penderfyniadau pendant arno.

1.3. Enghreifftiau rhyngwladol

Bu llawer o enghreifftiau rhyngwladol o genhedloedd yn newid eu teitl swyddogol. Yn 2022, anfonodd Llywodraeth Twrci lythyr i'r Cenedloedd Unedig yn gofyn yn ffurfiol i'r wlad gael ei chyfeirio ati fel Türkiye, sef sillafiad ac ynganiad Twrcaid Twrci. Gweriniaeth Türkiye, bellach, yw enw swyddogol y wlad, ac maehi wedi'i rhestru fel Türkiye ar y Rhestr o Aelod-wladwriaethau'r Cenedloedd Unedig.

Yn 2016, newidiodd Llywodraeth Tsiec enw'r wlad yn swyddogol i Czechia. Erys y teitl hir mewn rhai cyd-destunau, gyda'r enw byr yn cael ei gymharu ag un Ffrainc (a elwir yn swyddogol yn Weriniaeth Ffrainc).

Newidiodd cenedl yr ynys a elwid gynt yn Cape Verde ei henw i Cabo Verde yn 2013. Roedd Cape Verde yn fersiwn Seisnigaidd o'r enw Portiwgaleg gwreiddiol.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb hon ar 13 Ionawr 2023.

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, yr achosion diweddar o sefydliadau ac awdurdodau yn dewis defnyddio enwau Cymraeg fel eu teitl swyddogol. Dywedodd y Gweinidog fod enghreifftiau fel Cyngor Gwynedd a'r Wyddfa yn cael eu defnyddio'n swyddogol yn lle'r termau Saesneg yn dangos bod yna awydd cryf mewn rhai cyd-destunau i osod y Gymraeg wrth galon bywyd cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg.

Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud ei bod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i barhau i ddefnyddio Cymru a Wales i gyfeirio at y genedl.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cafodd deiseb yn 2019 yn galw ar y Cynulliad ar y pryd i gael ei hadnabod yn swyddogol fel 'Senedd' (yn hytrach na theitl dwyieithog) 1,033 o lofnodion. Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau y cynigion, ond fe'u gwrthodwyd ar y sail bod y mater yn cael ei ystyried yn ystod taith Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil, roedd 53% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw uniaith yn cynnwys 'Senedd' yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol, tra bod 73% yn ffafrio 'Senedd Cymru'.

I ddechrau, cynigiodd y Bil 'Senedd' fel teitl swyddogol uniaith. Fodd bynnag, pasiwyd gwelliant gan y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones, o 43 i 13 a roddodd yr enw dwyieithog sydd arni heddiw i'r Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref JMEWL/02473/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr, yn holi fy marn am ddeiseb sy'n galw ar y Llywodraeth i "*ailenwi 'Wales', gan ddefnyddio ei henw gwreiddiol, sef Cymru*", a hynny am mai "*enw a gafodd ei arosod ar Gymru yw 'Wales'. Cymru oedd yr enw gwreiddiol*".

Mae'r cwestiwn o ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer cyrff, nodweddion daearyddol ac enw'r wlad ei hun wedi dod i'r amlwg sawl gwaith dros y misoedd diwethaf, ac mae'r tueddiad yn hynod ddiddorol o safbwynt y Gymraeg.

Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi Cymraeg diwygiedig lle byddant ond yn defnyddio'r enw Cymraeg 'Cyngor Gwynedd' ymhob fformat wrth gyfeirio at y Cyngor. Ganol Tachwedd, cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hwythau eu bod wedi penderfynu defnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar gyfer Eryri a'r Wyddfa yn y dyfodol, gan bleidleisio o blaid cefnu ar y geiriau Snowdonia a Snowdon.

Mae'r enghreifftiau hyn ac eraill yn cyfleu bod awydd cryf mewn rhai cyd-destunau i osod y Gymraeg wrth galon bywyd cyhoeddus, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg. Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, mae hyn wrth gwrs i'w groesawu.

Yn benodol, mae gwaith Eryri i roi blaenoriaeth i enwau daearyddol Cymraeg yn adlewyrchu'r awydd i warchod enwau at y dyfodol a sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu disodli. Mae hyn yn gorgyffwrdd â gwaith Llywodraeth Cymru o dan ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i warchod enwau Cymraeg.

Rydyn ni fel Llywodraeth hefyd wedi cefnogi'r defnydd o enwau Cymraeg ar gyfer ein sefydliadau cenedlaethol, e.e. yn achos ein defnydd o "Senedd" yn unig mewn iaith bob dydd, yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Yn fewnol hefyd, lle bo'n briodol rydym yn defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar adrannau, ac adwaenir Is-adran y Gymraeg bellach yn y ddwy iaith fel Is-adran Cymraeg 2050.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan nifer helaeth o'n trefi, pentrefi a dinasoedd enwau dwyieithog am eu bod yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Ac rydym wedi gweld pan gynigir newid un lythyren yn unig mewn enw tref, neu osod cysylltnod rhwng elfennau o'r enw, bod trigolion yn gallu bod wrthwynebus iawn i hynny, gan deimlo ymlyniad cryf at y ffurf neu'r enw sydd fwyaf cyfarwydd iddyn nhw.

Mae enw'r wlad ei hun, wrth gwrs, yn fater sy'n berthnasol ar raddfa llawer ehangach ac yn effeithio ar lawer mwy o bobl. Ein bwriad yw parhau i ddefnyddio Cymru a Wales ill dau, er mwyn cyfeirio at ein gwlad yn ei dwy iaith swyddogol, ac i barhau i wneud yn siŵr bo'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i defnyddio ar lefel gymunedol a chenedlaethol, gan adlewyrchu ein hargyhoeddiad bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language



Eich cyf/Your ref P-06-1320
Ein cyf/Our ref RE/00015/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

24 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb yr ydych wedi'i chael oddi wrth Mark Fisher, yn gofyn bod rhagor o gyllid yn cael ei ddyrannu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd blaenoriaethau'r Llywodraeth hon ar gyfer ein cyllideb yn dal i fod yn wasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Nododd y setliad llywodraeth leol a gyhoeddais ar 14 Rhagfyr gyllid refeniw craidd ar gyfer 2023-24 o £5.5 biliwn. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 7.9 yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail tebyg at ei debyg, yn 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 6.5%. Yn 2023-24, bydd yr awdurdodau lleol yn cael £5.5 biliwn gan Lywodraeth Cymru mewn Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gynnydd o 7.1% ar gyfer 2023-24.

Dyraniad cyllid refeniw craidd dangosol yr awdurdodau lleol ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 yw £5.69bn - sy'n cyfateb i godiad o £169m (3.1%). Mae'r ffigur hwn yn ddangosol ac yn ddibynnol ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm NDR ac unrhyw gyllidebau'r DU ar gyfer 2024-25.

Yn ogystal â hyn, llwyddais i gyhoeddi gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Ar gyfer 2023-24, mae'r rhain yn dod i dros £1.3bn ar gyfer refeniw a thros £925m ar gyfer cyfalaf. Rydym yn darparu'r gwerthoedd grant dangosol hyn yn awr fel bod yr awdurdodau lleol yn gallu cynllunio eu cyllidebau'n effeithlon. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ymhellach yn y setliad terfynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi'r awdurdodau i barhau i dalu costau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal ac i gefnogi pwysau ym myd addysg.

Mae proses Cyllideb ddrafft 2023-24 a setliad llywodraeth leol dros dro 2023-24 wedi bod yn un o'r rhai mwyaf anodd ers datganoli oherwydd y pwysau ariannol yr ydym yn eu hwynebu. Mae'r Gweinidogion a minnau'n cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn fregus iawn ar ôl degawd o gynt, Brexit a'r pandemig, ac nad ydynt yn gallu gwrthsefyll unrhyw sioc bellach. Rhaid iddynt ddelio â'r cynnydd enfawr ym mhrisiau ynni a chwyddiant sy'n uwch nag y bu ers 40 mlynedd, tra bo'r galw am lawer o wasanaethau cyhoeddus hefyd yn codi.

Er bod hwn yn setliad cymharol dda i awdurdodau lleol yng Nghymru, gan adeiladu ar ddyraniadau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf yn cydnabod bod y cyfraddau chwyddiant a welwyd dros y misoedd diwethaf a rhagolygon OBR y bydd lefelau chwyddiant yn dal yn uchel yn golygu y bydd angen i lywodraeth leol wneud penderfyniadau anodd o hyd wrth bennu eu cyllidebau.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi cyllid digonol i Gymru i fodloni lefel y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn yn ystod proses y Gyllideb Ddrafft. Er bod rhywfaint o gyllid ychwanegol i Gymru yn Natganiad yr Hydref - £1.2bn dros ddwy flynedd - daeth bron hanner hynny o benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r polisi ardrethi annomestig yn Lloegr. Ni fydd hyn yn llenwi'r bylchau mawr yn setliad Cymru dros gyfnod tair blynedd yr adolygiad o wariant (2022-23 i 2024-25). Hyd yn oed ar ôl y cyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref, mae ein setliad yn dal i fod hyd at £3bn yn is mewn termau real a hyd at £1bn yn is y flwyddyn nesaf. Rwyf wedi parhau i bwysu ar y Canghellor am gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau allweddol ac am gymorth ynni i ddefnyddwyr domestig ac annomestig.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru brynu Neuadd Dewi Sant fel adnodd cenedlaethol i Gymru

Y Pwyllgor Deisebau | 6 Chwefror 2023
Petitions Committee | 6 February 2023

Cyfeirnod: SR20/****

Rhif y ddeiseb: P-06-1323

Teitl y ddeiseb: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru brynu Neuadd Dewi Sant fel adnodd cenedlaethol i Gymru

Geiriad y ddeiseb: Dyma gri o'r galon rhag i bobl Cymru golli adnodd diwylliannol hanfodol. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gamu i'r adwy. Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru i gorff masnachol yn peryglu adnodd sy'n rhan hanfodol a llewyrchus o fywyd cymunedol a diwylliannol Caerdydd ac, yn anochel, yn effeithio ar seilwaith creadigol ehangach Cymru.

Caiff dros 330 o berfformiadau eu cynnal yn y Neuadd bob blwyddyn, llawer ohonynt yn ennyn sylw cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn denu pobl o bob cwr o Gymru ac mae hefyd yn denu canran uwch o ymwelwyr o Loegr nag unrhyw leoliad arall yng Nghymru.

Hon yw'r unig neuadd gyngerdd gerddorfaol yng Nghymru a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer cerddorfa lawn. Dyma gartref cystadleuaeth Cardiff Singer of the World, Cerddorfa Genedlaethol Cymru a'r Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol - ynghyd â pherfformiadau diwylliannol amrywiol gan gynnwys ballet, cerddoriaeth bop/roc, jazz a gwerin a pherfformiadau gan ddigrifwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi cyfle i bobl o bob oed gyfranogi ac ymgysylltu'n greadigol, ac mae'n adnodd cymunedol ac yn adnodd dysgu amhrisiadwy i bobl Caerdydd a Chymru gyfan.



1. Y cefndir

Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwyodd Cyngor Caerdydd gynnig mewn egwyddor gan Academy Music Group i gymryd yr awenau wrth redeg Neuadd Dewi Sant fel Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru, drwy brydles hirdymor. Yn ôl papurau'r Cyngor:

The Council has only been able to afford to implement a basic maintenance programme to cover general wear and tear amounting to circa £2m of capital and circa £600k of revenue over the last 10 years. This has become increasingly insufficient as the building has grown older.

A:

The allocated revenue subsidy from the Council for St David's Hall is £688,700 in the current year. However, the venue regularly achieves lower box office revenue than forecast and as such the actual level of Council financial support regularly exceeds £1m per annum. The unallocated budget spend is required to be absorbed within wider directorate budgets and each year this is becoming increasingly difficult to achieve due to the growing pressure on Council budgets. This problem will be magnified significantly in the next financial year as the Council is forecasting a revenue budget shortfall of circa £53m.

Ystyriodd y Cyngor ddau opsiwn ar gyfer gweithredu Neuadd Dewi Sant yn y dyfodol:

Opsiwn 1 - rhagdybio buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu eiddo yn unol â chyngor proffesiynol a pharhad y cymhorthdal cyllideb blynyddol o £688,700 dros gyfnod o 40 mlynedd.

Opsiwn 2 – cynnig AMG, sy'n gofyn am ddim buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor a dim cymhorthdal refeniw blynyddol. O'i gymharu ag Opsiwn 1, mae'r opsiwn hwn yn cynnig arbediad i'r Cyngor sy'n cyfateb i £133 miliwn drwy raglen ad-dalu cyfalaf 40 mlynedd.

Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i fynd ar drywydd opsiwn 2.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ar 1 Rhagfyr 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru i Gwestiwn Ysgrifenedig gan Rhys ab Owen AS, sef: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd ynglŷn â sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor ar gyfer Neuadd Dewi Sant, Caerdydd?

Dywedodd yr ymateb fod dyfodol y lleoliad yn fater i Gyngor Caerdydd; ni chyfeiriwyd at unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Mae llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru (gweler adran 3 isod) yn awgrymu bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau am ddyfodol y Neuadd ers hynny.

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 29 Tachwedd 2022 dywedodd y Prif Weinidog:

[M]ae'n rhy gynnar i bryderu dwi'n meddwl, achos dŷn ni ddim yn gwybod digon o fanylion. Dwi wedi cael cyfle heddiw i siarad ag arweinydd y cyngor yma yng Nghaerdydd, a dwi'n siŵr fod e'n ymwybodol o bob pwynt mae Rhys ab Owen wedi eu codi. So, mae'n gwneud y gwaith gyda nid jest un cwmni ond mwy nag un cwmni sydd wedi dangos diddordeb i gydweithio â'r cyngor dros ddyfodol Neuadd Dewi Sant.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi ysgrifennu at Gyngor Caerdydd a Chyngor y Celfyddydau ynghylch dyfodol Neuadd Dewi Sant.

Gellir darllen copïau o'r llythyrau a'r ymatebion yma. Mae llythyr Cyngor y Celfyddydau (dyddiedig 12 Rhagfyr 2022) yn nodi "Mae nifer o drafodaethau wedi bod ynglŷn â'r mater yma sydd wedi cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Comments/additional information r.e. St David's Hall

1. St David's Hall is in the process of becoming a listed building.

CADW undertook a site visit of St David's Hall on the morning of the 26th January, with the site inspection report due to be written up in due course and a decision made regarding suitability for listing, followed by the statutory listed building consultation notice if the decision to list is made. Given that St David's Hall is the approximately the same age and architectural style as buildings such as the national theatre (Brutalist), which is grade 2*, and that St David's Hall has been largely unaltered since opening in 1982, I can see no reason speaking as an Architectural Technologist and Town Planner with a specialism in historic architecture why St David's hall would not become a listed building in due course- and that process which was instigated should be allowed to be seen through before any proposed alterations to the building are allowed to go ahead (such as removal of the stalls seating, etc) or in turn the building taken from local authority control prior to the completion of this process.

2. Concerns regarding Live Nation/AMG's safety record.

